Llangrannog

Urdd Gobaith Cymru

Disgrifiad Swydd

Teitl y swydd:	**Prentis Gweithgareddau Gwersyll Llangrannog**
Yn atebol i:	**Rheolwr Gofal Cwsmer a thrwyddo ef i'r Cyfarwyddwr.**
Cyflog:	**Bydd pecyn ariannol o tua £530 y mis (£3.50 yr awr) yn cael ei gynnig bydd yn cynnwys lwfans byw yn ogystal â threfniadau hyfforddiant, llety a chynhaliaeth**
Hyd y cytundeb:	**Bydd y cyfnod hyfforddiant yn para am flwyddyn gan gychwyn ar Fedi 1af 2017 tan 31ain Awst 2018.**
Oriau gwaith:	• **35 awr yr wythnos** • **Golyga dyletswyddau'r swydd hon y bydd rhaid gweithio bob yn ail benwythnos ac ar Wyliau'r Banc. Bydd hawl i 2 ddiwrnod i ffwrdd yn ystod yr wythnos ar ôl gweithio penwythnos a 2 ddiwrnod "in lieu" am weithio Gŵyl y Banc.** • **Oriau gwaith arferol: 9a.m.-5p.m.** • **Bydd un shifft 2p.m.-10p.m. pob tua 6 wythnos.** **Bydd rhaid gweithio tu allan i'r oriau hyn o bryd i'w gilydd**
Lleoliad:	**Gwersyll yr Urdd, Llangrannog**
Gwyliau blynyddol:	**Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad ar Reolwr Cwsmer**
Cyfnod prawf:	**Bydd cyfnod prawf o 3 mis.**
Gwiriad DBS:	**Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (DBS)**

Llangrannog

Archwiliad meddygol: Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.

Dyletswyddau, Gofynion a Hyfforddiant

1. Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus gymryd rhan yn yr holl hyfforddiant a gynigir. Anelir at dystysgrifau cenedlaethol:

- Tystysgrif NVQ Lefel 2 mewn Arwain Gweithgareddau (QCF)
- Cwrs Arweinwyr Chwaraeon Lefel 2
- Cwrs Diogelwch Plant
- Cwrs Cymorth Cyntaf
- Cwrs Achub Bywyd Pwll Nofio
- Cwrs Arweinydd Saethyddiaeth
- Cwrs Hyfforddi Sgïo / Byrddio Eira
- Cwrs Arweinydd Beiciau Modur
- Cyrsiau Iechyd a Diogelwch

2. Er mwyn ennill y tystysgrifau disgwylir i'r ymgeiswyr ymarfer y tu allan i oriau arferol y cynllun. Yn ogystal â'r hyfforddiant uchod rhoddir hyfforddiant mewnol ar holl weithgareddau amrywiol y gwersyll gan gynnwys y wal ddringo, cwrs rhaffau uchel, adeiladu tîm, datrys problemau cyfeiriannu, trampolîn, merlota, ceirt modur, gwibgartio a gweithgareddau nos.

3. Disgwylir i'r prentisiaid ymgymryd â'r rota staff y Gwersyll sy'n golygu bod ar ddyletswydd ar benwythnosau ac oriau hwyr ac anghymdeithasol. Fe roddir amser ychwanegol i ffwrdd am hyn.

4. Mae llawer o ddyletswyddau cyffredinol y Gwersyll yn disgyn i ran aelodau'r Adran Weithgareddau. Bydd y rhain yn cynnwys glanhau a chynnal a chadw gwahanol ardaloedd ac offer o fewn y Gwersyll, llenwi peiriannau bwyd a diod, a rhoi cymorth i adrannau eraill y Gwersyll yn ôl y galw.

5. Oherwydd natur y Gwersyll, fe fydd rhaid i'r ymgeiswyr ymateb i alwadau a gofynion amrywiol o dro i dro.

6. Disgwylir i'r ymgeiswyr llwyddiannus fod yn 18 oed, yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda diddordeb mewn plant a phobl ifanc, ac yn meddu ar bersonoliaeth radlon a brwdfrydig.

Os am sgwrs anffurfiol, cysylltwch ag Iestyn Evans, Rheolwr Gofal Cwsmer, Gwersyll Llangrannog ar 01239 652140

Llangrannog

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner dydd, Dydd Gwener 1 Mehefin 2017

Dylai ffurflenni cais wedi eu cwblhau cael eu dychwelyd at:
Preifat a Chyfrinachol
Iestyn Evans
Gwersyll yr Urdd
Llangrannog
Llandysul
Ceredigion
SA44 6AE

neu e-bostiwch Iestyn@urdd.org